

Date/Dyddiad: 17 Mai 2018

Ask for/Gofynwch am: Miss Charlotte Pugh

Telephone/Rhif ffon: (01446) 704662

Your Ref/Eich Cyf:

My Ref/Cyf: P/DC/CLP/2012/00937/S106

e-mail/e-bost: scgfapplications@valeofglamorgan.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Dock Office, Barry Docks, Barry CF63 4RT
Tel: (01446) 700111

Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfa'r Doc, Dociau'r Barri, Y Barri CF63 4RT
Ffôn: (01446) 700111

www.valeofglamorgan.gov.uk



Annwyl Syr/Fadam

Parthed: Cronfa Grant Cymunedau Cryf

Rwyf yn cysylltu i roi gwybod i chi am Gronfa Grant Cymunedau Cryf, sy'n rhoi grantiau i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddoli, Cyngorau Tref a Chymuned a Mentrau Cymdeithasol, i gyfrannu at gostau mentrau ym Mro Morgannwg sy'n helpu i gefnogi gweledigaeth y Cyngor o "gymunedau cryf â dyfodol llewyrchus".

Nod y gronfa yw:

- Gwella gwydnwch sefydliadau/grwpiau neu eu gweithgareddau drwy ariannu gweithgareddau sy'n ychwanegu gwerth at eu gwaith presennol a'u gwneud yn llai dibynnol ar arian grant yn y dyfodol.
- Cyfrannu arian hadau corn at fentrau a all ddangos eu bod yn gynaliadwy yn y tymor hwy.
- Ymgymryd â gwaith ymgynghori, dichonoldeb, dylunio a gwaith arbenigol arall i ddatblygu cynigion ar gyfer gweithgarwch a cheisiadau am gyllid yn y dyfodol.
- Talu am gostau cyfalaf cynlluniau drwy brynu cyfarpar, peirannau, offer ac asedau eraill.
- Ymgymryd â gwaith er mwyn darparu gwasanaethau, er enghraifft, drwy gynyddu'r potensial ar gyfer cynhyrchu incwm.
- Cefnogi projectau bach ac arloesol.

Dechreuodd y Gronfa graidd â chyfanswm o £672,000 dros dair blynedd o 2017 tan fis Mawrth 2020. Nid oes terfynau isaf nac uchaf i'r grant, ond mae sicrhau gwerth am arian yn elfen allweddol o'r asesu a disgwylir i'r galw fod yn uchel.

Bydd Dinas Powys yn elwa ar Adran 106

Yn ogystal â'r gronfa graidd, mae'r Cyngor wedi dyrannu £15,000 yn ychwanegol i'r gronfa yn ddiweddar, ar gyfer grwpiau yn Ninas Powys yn benodol.

Derbyniodd y Cyngor yr arian hwn gan ddatblygwyr hen Gartref Gofal Bryneithin, St. Andrew's Road, Dinas Powys, drwy gyfrwng Cytundeb Adran 106. Caiff yr arian ei ddefnyddio yn benodol i ddarparu/gwella ardaloedd lle mae mannau agored. Cyfeirir at yr arian yn aml fel "Arian Adran 106".

Dyma'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig ag arian Adran 106. Mae Cytundeb Adran 106 yn datgan y gellir defnyddio'r arian er mwyn "darparu

neu wella cyfleusterau mewn mannau agored cyhoeddus o fewn cyffiniau'r safle".

Mae'r cytundeb yn diffinio Man Agored Cyhoeddus fel a ganlyn: *"Tir a osodir fel gardd gyhoeddus, neu a gaiff ei ddefnyddio at bwrpas hamdden cyhoeddus, neu fan agored o werth cyhoeddus gan gynnwys tir neu ddŵr sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer chwaraeon, hamdden a thwristiaeth a lleoedd chwarae plant."*

Sylwch y bydd y Cyngor yn adnewyddu'r ardal chwarae yn Murch, Dinas Powys, ar ôl derbyn mwy o arian Adran 106, ac felly ni ddylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer yr ardal chwarae hon yn benodol.

Mae'r Cyngor, felly, yn croesawu grwpiau yn ward Dinas Powys i ymgeisio am arian Adran 106 drwy Gronfa Grant Cymunedau Cryf. Y dyddiadau cau ar gyfer y ddwy rownd nesaf yw:

- 3 Awst 2018
- 2 Tachwedd 2018

I gael cyngor neu i sicrhau eich bod yn gymwys i dderbyn grant y rhaglen hon, cysylltwch â fi drwy ffonio'r rhif ffôn uchod. Rhaid i unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno cais gysylltu â Thîm Datblygu Economaidd y Cyngor a'r Swyddog Adran 106, Charlotte Pugh, er mwyn i ni asesu eich cymhwysedd cyn cychwyn. Bydd yr ymgeiswyr cymwys yn cael ffurflen gais am Grant Cymunedau Cryf i'w chwblhau a'i chyflwyno.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Miss Charlotte Pugh
ar ran y Rheolwr Gweithredol Rheoli Datblygu